Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 20.07.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| Mae Estyn yn cytuno bod y canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn cynorthwyo darparwyr, rhieni a gofalwyr i wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr. Mae'r canllawiau'n gynhwysfawr ac yn amlygu'n glir ddulliau arfer orau y gall ysgolion, UCDau a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol eraill eu defnyddio. Mae'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau darparwyr, gan gynnwys llywodraethwyr ysgol, i gynorthwyo dysgwyr â'u presenoldeb, ac yn cynnwys egwyddorion buddiol, yn canolbwyntio ar ddeall amgylchiadau ac anghenion unigol.<br><br>Mae'r canllawiau'n cynnwys manylion pwysig ynglŷn â'r camau y dylai gwasanaethau awdurdodau lleol a phartneriaid eraill eu cymryd pan fydd problemau presenoldeb yn dwysáu. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y ffocws ar ddysgwr yn ganolog i'w egwyddorion a gwerth defnyddio dull cydweithredol. Croesewir y pwyslais ar sefydlu perthnasoedd pwrpasol gyda theuluoedd. Mae egwyddorion y canllawiau drafft yn adlewyrchu adroddiad Estyn 'Cynnwys rhieni – Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol.'[1] Amlygwyd yr angen i ddefnyddio dull yn seiliedig ar y dysgwr i ymgysylltu â disgyblion a chefnogi presenoldeb parhaus hefyd yn ein gwaith am 'Arferion cofrestru disgyblion' a nododd faterion hefyd ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol gosod targedau a defnyddio codau yn anghywir.[2] |
| Rydym o'r farn y gellir cryfhau'r canllawiau trwy gynnwys mwy o wybodaeth i egluro dealltwriaeth y darllenydd mewn mannau, er enghraifft o 'amgylchiadau penodol' a thrwy grynhoi'r holl wybodaeth yn ymwneud â rhieni mewn un adran. Gall hefyd fod yn fuddiol ystyried arddangos y wybodaeth mewn ffordd fwy hygyrch, er enghraifft trwy ddefnyddio fformat gweledol ar adegau i wneud y ddogfen yn haws i'w darllen. Yn ei fformat presennol, mae hefyd yn llai hygyrch i rieni a dysgwyr. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – A yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol ar gyfer arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i alluogi ysgolion a chyrff llywodraethol i wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn meddwl bod y canllawiau drafft yn ddogfen ddefnyddiol sy'n darparu gwybodaeth ymarferol i helpu gwella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr. Mae'r canllawiau'n glir iawn am y cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol i gefnogi |

[1] Cynnwys rhieni – Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol
[2] Arferion Cofrestru Disgyblion

presenoldeb, sef cyfrifoldebau a allai elwa ar gael eu casglu mewn atodiad penodol. Mae'r canllawiau'n llai cyfarwyddol am gyfrifoldebau'r system gofal iechyd. Er bod cyfeiriad at CAMHS, ac ati, gellid cryfhau'r iaith am gyfrifoldebau'r system gofal iechyd i ddarparu cymorth.

**Cwestiwn 2** – A yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr?

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfeiriad clir at gyfrifoldeb statudol rhieni am sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol. Mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am gyfrifoldebau cyrff llywodraethol am bresenoldeb dysgwyr, gyda dolenni addas at reoliadau statudol.

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod lleol?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys trosolwg defnyddiol o gyfrifoldebau awdurdodau lleol, a llwybrau rheoli a chymorth posibl. Mae'n cyfeirio at y cymorth y disgwylir iddo fod ar gael a'r llwybrau y dylid eu dilyn i fanteisio ar y cymorth.

**Cwestiwn 4** – A oes ymdriniaeth ddigonol o ran y ffactorau sy'n cyfrannu a'r rhesymau niferus posibl am absenoldeb?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oes** | ✓ | **Nac oes** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys dadansoddiad cryno buddiol o'r ffactorau niferus posibl sy'n cyfrannu, gan gynnwys cyfeiriad priodol at brofiadau ac / neu amgylchiadau dysgwr. Yn ychwanegol, mae'r canllawiau'n nodi grwpiau o ddysgwyr sy'n debygol o fod mewn risg uwch o bresenoldeb gwael. Gall fod yn fuddiol cynnwys cyfeiriad yn y rhestr at y posibilrwydd nad yw'r ddarpariaeth y mae disgybl yn ei mynychu efallai'n diwallu ei anghenion, ac y gallai felly fod yn rheswm am absenoldeb.

| |
|---|
| Nid ydym o’r farn ei bod yn fuddiol awgrymu yr ystyrir bod 95% presenoldeb yn ‘bresenoldeb da’ (tudalen 6). Mae pennu 95% presenoldeb yn drothwy ar gyfer "da" yn gallu creu disgwyliad is ar gyfer dysgwyr neu unigolion. Mae’n awgrymu eu bod yn perfformio’n dda, ar yr amod eu bod yn bodloni’r gofyniad o ran lleiafswm presenoldeb, hyd yn oed os nad ydynt yn ymgysylltu’n llawn neu’n mynd ati i gyfranogi yn y broses ddysgu. Gallai’r meddylfryd hwn rwystro twf personol a chyfyngu ar botensial. Byddem yn awgrymu tynnu’r cyfeiriad hwn a chanolbwyntio ar ffactorau eraill fel ansawdd cyfranogi, cyflawniadau academaidd, a dealltwriaeth gyffredinol o’r pwnc. Mae canolbwyntio ar ganran presenoldeb yn unig yn anwybyddu’r agweddau hollbwysig hyn. |

**Cwestiwn 5** – A yw dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae’r canllawiau drafft yn cyfeirio at ‘nodweddion gwarchodedig’ fel ffactor risg allweddol. Cyfeirir at y nodweddion gwarchodedig trwy gydol y ddogfen, er enghraifft wrth gyfeirio at hil yn gysylltiedig â hawliau dynol, neu rywedd yn gysylltiedig â chwnsela. Er eglurder pellach, gellir cryfhau’r canllawiau trwy gynnwys mwy o wybodaeth am y nodweddion y cyfeirir atynt fel ‘nodweddion penodol’ o dan y pennawd ‘Pwysigrwydd presenoldeb da yn yr ysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr.’ Fel arall, gallai’r canllawiau gynnwys dolen i gefnogi dealltwriaeth darllenwyr o’r nodweddion hyn. |

**Cwestiwn 6** – A yw’r canllawiau drafft ynghylch ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi’ yn darparu digon o wybodaeth i rieni a gofalwyr ddeall eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg amser llawn?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae’r canllawiau drafft yn datgan yn gryno beth yw rhwymedigaeth gyfreithiol rhieni o dan ‘Rolau a Chyfrifoldebau’. Mae’r canllawiau’n annog ysgolion i ddatblygu strategaethau mewn partneriaeth â dysgwyr a rhieni, gan bwysleisio pwysigrwydd a manteision presenoldeb da tra’n mynd i’r afael â goblygiadau posibl absenoldeb. Mae hefyd yn awgrymu y dylai ysgolion weithio gyda rhieni i nodi unrhyw resymau posibl a allai effeithio ar bresenoldeb a’u cyfeirio nhw at ffynonellau cymorth priodol.<br><br>Gellir cryfhau’r canllawiau trwy grynhoi gwybodaeth ddefnyddiol o adrannau eraill o fewn yr adran hon i’w cynorthwyo â’u dyletswydd statudol. Gallai’r wybodaeth |

| |
|---|
| hon gynnwys pwysigrwydd cyfathrebu dwy ffordd, er enghraifft. Gallai dolenni at ganllawiau perthnasol fod yn ddefnyddiol yn yr adran hon hefyd, er enghraifft at y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan. |

**Cwestiwn 7** – A yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn cael eu hesbonio'n glir? Os na, pa feysydd y gellid eu gwella, a pham? Oes yna agweddau rydych chi'n eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r canllawiau drafft yn glir. Mae'r adrannau ar sefydlu dull ysgol gyfan, datblygu perthnasoedd â theuluoedd, ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach i gefnogi atal, yn cyd-fynd yn briodol â'r egwyddorion a'r dulliau. Caiff y canllawiau eu cryfhau gan eu ffocws ar anghenion y dysgwr, ac ar lais y dysgwr. Caiff datblygiad staff ei grybwyll, ond nid yw'n glir sut bydd hyfforddiant yn cynorthwyo ysgolion i gymhwyso'r egwyddorion. Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfarwyddebau clir ar gyfer ysgolion a lleoliadau sy'n ymwneud â rheoli absenoldeb yn ffurfiol.<br><br>Mae'r adran ddefnyddiol ynghylch Llai o Oriau yn ddefnyddiol o ran helpu ysgolion a theuluoedd i weld bod y dull hwn yn fesur cefnogol. Mae'n ddogfen hir ac yn cynnwys llawer o ryddiaith. Gall fod yn fuddiol ystyried defnyddio ffeithluniau neu arddangos y wybodaeth mewn fformat gweledol ar adegau i wneud y ddogfen yn haws ei darllen.<br><br>Gellid cryfhau'r canllawiau trwy nodi, er y gallai fod amgylchiadau lle mae angen llai o amserlen ar gyfer anghenion lles neu anghenion addysgol penodol dysgwr unigol, y dylid ymdrechu i leihau'r anfanteision posibl trwy ddarparu cymorth priodol, monitro cynnydd, a sicrhau profiad dysgu cynhwysfawr a difyr, er gwaethaf yr oriau llai. |

**Cwestiwn 8** – A yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn hawdd i'w defnyddio? Os na, pa feysydd y gellid eu gwella, a pham? Oes yna agweddau rydych chi'n eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r canllawiau drafft yn dod â phrosesau rheoli absenoldeb at ei gilydd yn llwyddiannus ac yn cynnwys ymagwedd gynhwysol at gymorth system gyfan ar gyfer dysgwyr a theuluoedd. Mae'n cynnwys dolenni gwerthfawr at ganllawiau statudol, yn ogystal ag at astudiaethau achos arfer dda. Mae'r dulliau a amlinellir |

yn amlygu'r ffactorau sy'n cyfrannu at bresenoldeb da ac yn cyfeirio ysgolion at werth dull ysgol gyfan, gweithio mewn partneriaeth, meithrin ethos cadarnhaol, a darparu cwricwlwm difyr sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Yn ychwanegol, mae'n cyfeirio'n briodol at bwysigrwydd meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda dysgwyr a theuluoedd, a nodi cymorth addas pan fydd angen.

Mae'r canllawiau'n cynnwys rhestr ddefnyddiol o ffactorau cyfrannol a allai effeithio ar bresenoldeb. Maent yn cyfeirio'n briodol at rolau a chyfrifoldebau rhieni, ysgolion a phartneriaid allanol, gan gysylltu'r rhain â dyletswyddau a diwylliannau diogelu. Mae'r canllawiau ar nodi'n gynnar, yn arwain at gymorth a chanolbwyntio ar iechyd a lles, yn gam cadarnhaol. Rydym o'r farn fod y canllawiau yn adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn dda.

Mae'r cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth a gwybodaeth trwy gydol y ddogfen yn ychwanegiad buddiol hefyd.

Mae'r canllawiau drafft yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynulleidfaoedd bwriadedig, yn enwedig ysgolion a darparwyr. Efallai eu bod yn llai diddorol ar gyfer rhieni. Nid yw'n glir sut bydd plant a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r canllawiau o ystyried rôl annatod cyfranogiad disgyblion.

**Cwestiwn 9 –** Ar raddfa o 1 i 5 (1 yn golygu 'ddim o gwbl' a 5 yn golygu 'iawn'), pa mor fuddiol yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi', yn eich barn chi? Hoffech chi weld gwelliannau?

| 1 | ☐ | 2 | ☐ | 3 | ☐ | 4 | ✓ | 5 | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn ddefnyddiol ar gyfer pob un o'r cynulleidfaoedd bwriadedig. Mae'n galonogol gweld yr holl wybodaeth ac ymchwil ynghylch effeithio ar bresenoldeb cadarnhaol mewn un lle, gan gynnwys yr holl bartneriaid a sefydliadau dan sylw. Ceir aliniad clir â phroses arolygu Estyn, gan werthuso sut mae ysgolion a lleoliadau yn rheoli presenoldeb. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i edrych ar ddata presenoldeb ac yn cynnwys ffocws ar yr arfer mae darparwyr yn ei rhoi ar waith ar gyfer ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu, cefnogi eu hanghenion ychwanegol a meithrin perthnasoedd effeithiol gyda theuluoedd a sefydliadau allanol.

Rydym o'r farn y gellid cryfhau'r ddogfen trwy:

- gael mwy o ffocws ar effeithiau trawma yn yr adran ragarweiniol, gan sicrhau bod ysgolion yn deall eu rhan mewn diwallu anghenion eu dysgwyr
- cael mwy o ffocws ar y cysylltiad rhwng addysgu o ansawdd da ac ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr

- ystyried cyflwyno'r ddogfen derfynol, er enghraifft trwy ddefnyddio mwy o wybodaeth weledol i alluogi hygyrchedd rhwydd ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd bwriadedig
- creu fersiynau sy'n hawdd i rieni a disgyblion eu defnyddio
- gwirio bod addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn cael ei defnyddio'n gywir drwyddi draw ac na chaiff ei defnyddio fel term ymbarél ar gyfer unrhyw ddarpariaeth oddi ar y safle a drefnwyd gan ysgolion
- cynnwys cyfeiriad at ystyriaethau trefniadau cludiant lle gallai hyn fod yn achos posibl am ddiffyg presenoldeb, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu darparwyr Cymraeg sydd â chyfran uwch sy'n defnyddio cludiant ysgol.

Byddai hefyd yn werth sylwi ar bwysigrwydd cyfnodau pontio i ddisgyblion a theuluoedd. Gall hyn fod o'r cartref i'r ysgol fel y dywedwyd, ond hefyd rhwng darpariaethau. A yw'r arweiniad yn ddigon clir i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws darparwyr pan fydd disgyblion yn pontio o un lleoliad neu ysgol i un arall?

**Cwestiwn 10** – A yw'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn darparu gwybodaeth ddigonol o ran:

i. esbonio egwyddorion a dulliau y dylid eu mabwysiadu wrth wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn rhoi pwyslais priodol ar ddull yn canolbwyntio ar y dysgwr sydd wedi'i sefydlu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a nodau craidd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar y Confensiwn. Mae'n darparu rhesymeg glir ar gyfer gweithredu dulliau i gryfhau ymgysylltu â theuluoedd. Mae'n amlygu dulliau y mae'n hysbys eu bod yn briodol ataliol.

ii. nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a allai effeithio ar bresenoldeb?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys rhestr helaeth o ffactorau posibl yn gysylltiedig â phresenoldeb gwael. Fodd bynnag, mae pob ysgol a chymuned yn unigryw, ac

| |
|---|
| mae'n hanfodol teilwra strategaethau i weddu i anghenion ac amgylchiadau penodol y dysgwyr a'u teuluoedd. Byddai'r canllawiau'n gryfach trwy gynnwys:<br>• cyfeiriad at drefniadau cludiant ar ddiffyg presenoldeb posibl a sicrhau bod ysgolion ac UCDau yn darparu gwybodaeth glir am opsiynau cludiant sydd ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys llwybrau bysiau, amserlenni, ac unrhyw drefniadau arbennig<br>• cyfeiriadau at bwysigrwydd sefydlu sianelau cyfathrebu clir ac effeithiol y dylid eu sefydlu i roi gwybod i rieni a dysgwyr am unrhyw darfu neu newidiadau mewn gwasanaethau cludiant, fel achosion o oedi neu ganslo<br>• darparu canllawiau ar leoliadau ysgol i leihau gormod o symud i'r eithaf, fel darparu sefydlogrwydd a pharhad ar gyfer dysgwyr sydd wedi adleoli neu wedi trosglwyddo'n aml, ac ystyried effaith y symudiadau hyn ar eu presenoldeb |

iii. cyfeirio at fwy o ganllawiau ac arfer dda?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r canllawiau drafft yn cyfeirio darllenwyr at gasgliad addas o ddogfennau arweiniad ychwanegol ac adnoddau ar-lein. Mae'r astudiaethau achos arfer dda yn arbennig o ddefnyddiol i ysgolion. Yn eu fformat presennol, nid yw'r canllawiau'n galluogi darllenwyr i fanteisio ar fwy o ganllawiau ac astudiaethau achos arfer dda yn hawdd. |

iv. cofnodi a dadansoddi data presenoldeb?

| Ydyn | ☐ | Nac ydyn | ✓ | Ddim yn siŵr | |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r canllawiau drafft yn darparu gwybodaeth glir am weithdrefnau a dibenion yn gysylltiedig â chofnodi a dadansoddi presenoldeb, gan gynnwys cyfeiriad perthnasol at ddyletswyddau diogelu darparwyr. Mae'r canllawiau'n datgan disgwyliad fod ysgolion yn cynllunio'n ofalus ar gyfer unrhyw absenoldeb astudio. Fodd bynnag, mae absenoldeb astudio (hyd at 15 diwrnod) yn caniatáu i ddisgyblion fod yn absennol heb oruchwyliaeth am gyfnod estynedig. Nid yw'n glir sut dylai ysgolion weithredu o ran diogelu disgyblion, yn enwedig disgyblion bregus, yn ystod y cyfnodau hyn.<br><br>Gellid cryfhau'r canllawiau trwy ganolbwyntio ar sut dylai ysgolion ddiogelu dysgwyr sydd ar gyfnod absenoldeb astudio. Er enghraifft, trwy:<br>• sefydlu llinellau cyfathrebu clir agored rhwng yr ysgol a'r dysgwyr sydd ar gyfnod absenoldeb astudio. Rhoi manylion cyswllt staff ysgol dynodedig i |

ddysgwyr er mwyn iddynt allu troi at y staff am gymorth, arweiniad, neu i roi gwybod iddynt am unrhyw bryderon

- defnyddio platfformau ac offer ar-lein i gynnig gwasanaethau cymorth rhithwir i ddysgwyr
- trefnu system gwiriadau rheolaidd gyda dysgwyr yn ystod eu cyfnod absenoldeb astudio
- darparu canllawiau ar gyfer dysgwyr ar sut i nodi ac adrodd am unrhyw gynnwys ar-lein amhriodol neu niweidiol
- sicrhau bod gan ddarparwyr bolisïau a gweithdrefnau diffiniedig ar waith ar gyfer diogelu dysgwyr yn ystod cyfnod absenoldeb astudio.

v. ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys cyfeiriad addas at bwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd a gwybodaeth briodol ynghylch gweithio amlasiantaethol. Mae'r model ysgolion bro yn ddefnyddiol. Mae'r canllawiau yn cyfeirio'n briodol at rôl staff fel swyddogion presenoldeb a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'u buddion i ysgolion. Gellir cryfhau'r canllawiau trwy gynnwys mwy o arweiniad ar gyfer / cyfeiriad at ysgolion bach a gwledig. Yn ychwanegol, bydd yn bwysig i ysgolion nodi sut bydd yn cysylltu â theuluoedd i weddu iddynt orau, ble mae rhwystrau iaith neu anableddau.

vi. rheoli absenoldeb yn ffurfiol?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Mae'r adran hon yn glir ac yn cael ei chryfhau ymhellach trwy gynnwys siart lif atgyfeiriadau'r gwasanaeth lles addysg.

**Cwestiwn 11** – At ddibenion ystadegol, mae absenoldeb parhaus wedi'i ddiffinio yng Nghymru fel bod yn absennol am dros 20% o sesiynau ysgol hanner diwrnod. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb parhaus i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad a ddefnyddir yn Lloegr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn neu ddim, a pham?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae newidiadau i'r diffiniad i 10% o 20% yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru a'r fframwaith ar gyfer diogelu plant yng Nghymru yn well. Ar ôl y pandemig a'i effaith ar bresenoldeb, gallai rhybudd 10% alluogi i egwyddorion a dulliau gael eu cymhwyso'n gynharach, gan liniaru yn erbyn effaith andwyol absenoldeb estynedig ar ddysgwyr.<br><br>Gallai fod canlyniad anfwriadol yma a gallai ysgolion ddewis ymateb i absenoliaeth dim ond ar achlysuron pan fodlonir y trothwy 10%. Byddai'r canllawiau'n gryfach trwy nodi y dylai ysgol ymateb ar unwaith i absenoldeb plentyn, hyd yn oed os nad yw erioed wedi colli diwrnod o ysgol o'r blaen. Mae hyn:<br>• yn hyrwyddo diogelwch<br>• yn atal triwantiaeth<br>• yn cynnal parhad addysgol<br>• yn cefnogi cyfathrebu effeithiol ac<br>• yn helpu nodi a mynd i'r afael â materion sylfaenol.<br><br>Mae hefyd yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu darparu cymorth ac adnoddau priodol i'r dysgwr ac yn cynnal amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhyrchiol.<br><br>Mae monitro absenoldebau yn gyson, gan gynnwys absenoldebau dysgwyr sy'n colli'r ysgol yn anaml, yn helpu nodi patrymau neu broblemau posibl y gallai fod angen ymyrraeth arnynt. Mae'n galluogi'r ysgol i adnabod a oes problem fynych, fel problemau iechyd, heriau o ran cludiant, neu anawsterau'n addasu i'r ysgol. Trwy fynd i'r afael â'r problemau hyn yn gynnar, gall yr ysgol ddarparu cymorth, adnoddau neu atgyfeiriadau priodol i sicrhau lles a llwyddiant academaidd parhaus y myfyriwr.<br><br>Trwy addasu'r trothwy, mae hyn yn debygol o gael effaith ar y galw am gymorth gan y Gwasanaeth Lles Addysg. |

**Cwestiwn 12** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Nid ydym o'r farn y bydd y canllawiau drafft yn cael unrhyw effeithiau penodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

**Cwestiwn 13** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y canllawiau drafft ynghylch 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Dim sylwadau pellach |

**Cwestiwn 14** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

| |
|---|
| Dim sylwadau pellach |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐